Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Garth Olwg
# Y Brif Ffordd
# Pentre'r Eglwys
# Pontypridd
# Rhondda Cynon Taf
# CF38 1DX

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2013**

## Cyd-destun

Ysgol uwchradd dynodedig Gymraeg sydd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 11–18 oed yw Ysgol Gyfun Garth Olwg. Ym mis Medi 2007, symudodd yr ysgol i adeilad newydd ym Mhentre'r Eglwys, ar gampws Garth Olwg ger Pontypridd, ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn byw ym Mhontypridd a'r pentrefi cyfagos. Mae 18.8% o'r disgyblion yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae 829 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 150 yn y chweched dosbarth. Mae gan tua 11% o'r disgyblion yr hawl i ginio ysgol di-dâl, sydd yn is na'r canran cenedlaethol o 17.4%. Mae 19% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol. Mae un disgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, o gymharu â 2.7% yn genedlaethol.

Daw 5.5% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn yr aelwyd. Mae bron pob un disgybl yn siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg. Nid oes disgyblion â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Fe apwyntiwyd y pennaeth ym mis Medi 2012. Roedd gweddill yr uwch dîm arwain yn eu swyddi cyn hynny.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Garth Olwg yn 2012–2013 yw £4,498. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf yw £4,830 a'r lleiafswm yw £3,780. Mae Ysgol Gyfun Garth Olwg yn y pedwaredd safle o'r 19 ysgolion uwchradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- cynnydd yng nghyflawniad y disgyblion yng nghyfnod allweddol 3;
- y cynnydd da mewn gwersi y mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn ei wneud;
- y ffaith bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt agwedd bositif iawn at ddysgu;
- ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau allgyrsiol gwerthawr i'r disgyblion sydd yn hyrwyddo eu defnydd o'r Gymraeg; a'r
- rhaglenni ymyrraeth yn y Gymraeg a Saesneg, sydd yn eu lle, er mwyn sicrhau bod disgyblion ag anawsterau dysgu yn gwneud cynnydd perthnasol.

Fodd bynnag, mae perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- bod cyflawniad y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, yn y mwyafrif o'r dangosyddion, yn is nag ydynt mewn ysgolion tebyg;
- bod perfformiad y disgyblion ar y lefelau uchaf, yng nghyfnod allweddol 3, yn is na chyfartaledd y teulu, ac ysgolion tebyg, yn y pynciau craidd;
- nid yw'r cynllunio, ar draws yr adrannau, yn ddigon manwl i sicrhau cynnydd arwyddocaol yn y medrau; ac
- mewn lleiafrif o bynciau nid yw'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'w harsylwadau yn ddigon rheolaidd.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth weledigaeth glir am gyfeiriad strategol yr ysgol;
- mae'r pennaeth a'r tîm arwain yn rhoi arweiniad da iawn i'r ysgol ac maent yn cael eu cefnogi gan bob aelod o'r staff;
- mae strwythur tyn o gyfarfodydd i dracio cynnydd yn erbyn nodau'r cynllun gwella; ac
- mae data perfformiad yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol i osod targedau perthnasol a heriol i'r disgyblion er mwyn gwella.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg

A2 Gwella perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 3, yn enwedig y canran sy'n cyrraedd y lefelau uwch wrth gymharu ag ysgolion tebyg

A3 Datblygu medrau llefaredd a medrau ysgrifennu'r disgyblion

A4 Gwella holi athrawon er mwyn ysgogi ymatebion mwy estynedig gan y disgyblion

A5 Ehangu rôl a chyfraniad yr arweinwyr canol yn y broses o arsylwi gwersi

A6 Sicrhau bod y broses hunanarfarnu yn gwreiddio yn gadarn yn arfer pob adran

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

### Safonau: Digonol

Yng nghyfnod allweddol 4, dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol, yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion, wedi ei leoli yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Er bu cynnydd yn 2012, nid yw'r gwelliant hwn yn codi'r ysgol i'r un lefelau cyrhaeddiad a fu yn 2009. O gymharu â 2011, roedd canlyniadau'r dangosydd pynciau craidd yn 2012 wedi codi, ond mae'r ysgol yn dal i fod yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Bu cynnydd yn 2012 yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg ond, eto, nid yw'r gwelliant yn codi'r ysgol i'r 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae data yn dangos gwelliant ym mron pob un o'r dangosyddion o gymharu a 2010 a 2011. Mae'r canran o ddisgyblion sydd yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn dangos cynnydd da iawn ac yn llawer gwell na chyfartaledd Cymru. Hefyd, mae'n uwch na'r disgwyliad ar sail lefelau prydau ysgol am ddim.

O 2009 i 2011, roedd perfformiad yn y Gymraeg, yng nghyfnod allweddol 3, yn llawer is na'r teulu, ac yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Bu gwelliant yn 2012 ond mae'r ysgol yn parhau i fod yn y 50% isaf. Mae perfformiad mewn Saesneg, dros y ddwy flynedd diwethaf, ymhlith y 50% isaf. Mae perfformiad mathemateg yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg, ac yn agos iawn i gyfartaledd y teulu. Mewn gwyddoniaeth, mae'r ysgol yn y 25% uchaf ac y perfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu. Er hyn, yn 2012, roedd perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn is na chyfartaledd y teulu mewn Saesneg, Cymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3, dros gyfnod o dair blynedd, wedi bod yn weddol agos i gyfartaledd y teulu, yr awdurdod lleol, a Chymru. Mae cyrhaeddiad disgyblion a'r sgôr pwyntiau ehangach wedi bod yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu, awdurdod lleol, a Chymru.

Mae cyflawniadau disgyblion cyfnod allweddol 4, sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn y dangosydd pwnc craidd, yn llawer uwch na chyfartaledd y teulu, a chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 3, mae cyflawniadau disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is na'r teulu, a Chymru.

Ym mwyafrif y dangosyddion, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflwyniadau'r bechgyn a merched ac mae'r bwlch yn llai na chyfartaleddau'r teulu, a Chymru. Mae disgyblion sydd yn derbyn cymorth ychwanegol i wella medrau darllen a rhifedd gwan yn gwneud cynnydd da. Hefyd, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn gyffredinol, yn gwneud cynnydd da. Yn 2012, gadawodd ychydig iawn o ddisgyblion yr ysgol heb gymhwyster neu barhau mewn addysg. Mae'r nifer hwn yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Maent yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd mewn gwersi blaenorol. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwrando yn astud ar gyflwyniad yr athro ac, o ganlyniad, yn ymateb yn effeithiol i dasgau priodol y wers. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o’r disgyblion yr hyder i fynegi eu hunain yn glir ar lafar a gall hyn gyfyngu ar eu gallu i ateb yn estynedig. Yn y gwersi, mae llawer o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn yr amcanion dysgu. Maent yn adeiladu ar eu gwybodaeth, eu medrau, a’u dealltwriaeth yn dda. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn gweithio’n effeithiol yn unigol, mewn parau a grwpiau, ac maent yn barod i rannu eu barnau am y gwaith gyda’u cyfoedion. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cymhwyso eu medrau meddwl yn effeithiol.

Mae mwyafrif o’r disgyblion yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg ac yn datblygu medrau ysgrifennu a darllen perthnasol. Maent yn defnyddio’r geirfa bynciol mewn modd soffistigedig er mwyn dadansoddi testunau a chyrraedd casgliadau yn effeithiol iawn. Yn y gwersi Saesneg, mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn cynnal trafodaethau estynedig ac yn ymateb yn ddeallus i safbwyntiau eu cyfoedion. Mae llawer o’r disgyblion yn ysgrifennu’n briodol at ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd yn y rhan fwyaf o’r pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn y pynciau hyn, maent yn arddangos gafael gadarn ar dermau pynciol.

Mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu cywirdeb sillafu ac atalnodi, ond mae camgymeriadau sillafu a gramadegol yng ngwaith lleiafrif o ddisgyblion. Mae disgyblion sydd yn cyrraedd yr ysgol gyda oedrannau darllen is na’u oed cronolegol yn gwneud cynnydd da iawn erbyn diwedd cyfnod allweddol 3.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac mae ganddynt agwedd bositif iawn at ddysgu. Mae bron pob un yn canolbwyntio'n dda yn y gwersi ac yn cymryd rhan buddiol yn y gwaith a osodir, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau. Yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol, mae’r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda. Mae disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn dda i ymwelwyr. Nid oes yr un disgybl wedi cael gwaharddiad parhaol yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

Mae’r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn nodi bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw achosion o fwlio. Mae mentora’r disgyblion hyn yn rhoi cefnogaeth werthfawr iddynt, ac ynghyd â’r gefnogaeth gref gan staff yr ysgol, mae’n helpu i leihau ei amlder ac effaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau eraill i ddatblygu eu ffitrwydd. Mae canran uchel yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol gwerthfawr, megis cystadlaethau’r Urdd ac amryw o gyngherddau yn y gymuned. Dangosir pryder disgyblion am eraill trwy godi arian ar gyfer ystod eang o elusennau.

Mae ffigurau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf wedi codi a bellach maent yn uwch na ffigurau cyfartalog y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Mae’r ysgol yn y chwartel canol uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Hefyd, mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn brydlon i'w gwersi. Trwy weithgareddau’r cyngor ysgol a’r grŵp eco, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu tuag at amryw o agweddau ar fywyd yr ysgol,

gan gynnwys ansawdd yr addysgu. O ganlyniad i waith y cyngor ysgol, sefydlwyd y cynllun mentoriaid cyfoedion. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos parch at eu cyfoedion ac yn datblygu medrau cymdeithasol effeithiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni'r holl ofynion statudol. Cynigir ystod eang o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4, o fewn yr ysgol, ac yn y chweched dosbarth ar y cyd â darparwyr ôl 16 eraill. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cynnig ystod o brofiadau gwerthfawr i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae'r ddarpariaeth bontio yn fanwl a thrylwyr a cheir cyswllt da â'r sector gynradd sy'n sicrhau dilyniant effeithiol.

Darperir ystod dda o brofiadau i ehangu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Cynigia'r ysgol ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau allgyrsiol gwerthfawr sydd hefyd yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan y disgyblion. Yn ychwanegol at hyn, darperir rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau allanol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda o fewn yr ysgol. Mae'r cydgysylltydd llythrennedd wedi datblygu'r ddarpariaeth yn arwyddocaol o fewn cyfnod byr. Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd creadigol o dechnoleg i gynhyrchu adnoddau amlgyfrwng i ddal sylw a hybu cymhelliant disgyblion. Mae cyfleoedd addas i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl wedi'u nodi yng nghynlluniau gwaith yr adrannau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer y medrau, ar draws yr adrannau, yn ddigon manwl i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd perthnasol. Mae'r ddarpariaeth benodol ar gyfer datblygu medrau ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 yn dechrau gwneud cyfraniad priodol i ddatblygiad medrau'r disgyblion.

Mae disgyblion ag anawsterau dysgu neu oediad darllen yn cael eu hadnabod yn fuan. Darperir rhaglenni ymyrraeth yn y Gymraeg a Saesneg ar eu cyfer sy'n sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd perthnasol.

Cynigir darpariaeth briodol ar gyfer addysg gynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang trwy bynciau, megis daearyddiaeth, gwyddoniaeth a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae'r grŵp eco wedi ei sefydlu yn ddiweddar ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi yn ofalus a'r mwyafrif yn gosod disgwyliadau uchel. Mae eu gwybodaeth bynciol yn dda ac mae gan bron bob un reolaeth ddosbarth gadarn a pherthynas weithio effeithiol. Mae llawer o'r athrawon yn gwneud defnydd dychmygus o adnoddau addysgu i gynnal brwdfrydedd a diddordeb y disgyblion.

Mewn llawer o wersi, cyflwynir nodau dysgu clir a heriol ac ystod o dasgau sy`n symbylu a sicrhau cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn fodelau iaith da. Mae llawer o'r athrawon yn defnyddio technegau holi priodol. Fodd bynnag, nid yw ychydig yn defnyddio cwestiynau dilynol yn ddigon effeithiol i hyrwyddo atebion estynedig.

Yn yr ychydig o wersi llai effeithiol, nid yw disgwyliadau yr athrawon yn ddigon uchel. Yn ychwanegol, nid yw athrawon yn y gwersi hyn yn sicrhau bod y gweithgareddau yn addas ar gyfer yr ystod gallu llawn. Yn y gwersi hyn, nid yw'r cynllunio yn gwahaniaethu'r tasgau yn briodol i bob disgybl.

Mae rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar adeiladol i ddisgyblion, yn marcio gwaith yn ofalus ac yn rhoi arweiniad da ar sut i wella. Mae ychydig adrannau wedi datblygu dulliau dyfeisgar i sicrhau bod disgyblion yn ymateb i waith marcio'r athro. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r pynciau, nid yw'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'w harsylwadau yn ddigon rheolaidd. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn glir ynghylch sut i symud ymlaen gyda'u gwaith. Mae'r mwyafrif o adrannau yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion adnabod targedau, hunanasesu ac asesu eu cyfoedion. Lleiafrif sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion wella eu hamgyffred o iaith trwy ddefnyddio meini prawf llwyddiant mynegiant penodol a heriol.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau priodol ar gyfer adrodd i rieni. Fodd bynnag, ceir peth anghysondeb yn nehongliad ychydig iawn o athrawon o'r meini prawf. Mae sustem olrhain cynnydd disgyblion yr ysgol gyfan yn datblygu'n dda ac yn caniatáu i athrawon a rheolwyr adnabod disgyblion sydd yn tangyflawni. Mae'r ymyrraeth ddilynol yn dechrau cael effaith foddhaol ar gyflawniad grwpiau penodol o ddisgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Hefyd, cyfranna rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn dda at ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o faterion moesol a chymdeithasol. Mae'r Munud i Feddwl mewn gwasanaethau dosbarth a blwyddyn yn gwneud cyfraniad defnyddiol i ddatblygu dealltwriaeth ysbrydol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth annog presenoldeb da. Mae ymateb graddedig, wedi'i strwythuro'n dda, ar gyfer disgyblion sydd â phresenoldeb sy'n achosi pryder. Trwy ymgynghori â disgyblion, sefydlwyd cyfundrefn effeithiol i annog ymddygiad da yn y dosbarth. Rheolir y gyfundrefn hon yn dda gan yr arweinwyr cynnydd. Mae tiwtoriaid personol yn monitro eu disgyblion yn rheolaidd ac, ynghyd â mentoriaid ag anogwyr dysgu, maent yn cyflawni cymorth ac arweiniad gwerthfawr er mwyn sicrhau bod safonau, ar y cyfan, yn gwella a bod unigolion yn cyrraedd eu potensial.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o ystod o asiantaethau allanol, er mwyn cefnogi disgyblion unigol ac i gyfoethogi'r cwricwlwm.

Caiff pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu hintegreiddio'n llawn i mewn i'r ysgol ac maent yn dilyn cwricwlwm arferol y brif ffrwd. Mae rhaglen fuddiol wedi ei theilwra i roi cymorth buddiol i'r holl ddisgyblion sydd yn y grwpiau ymyrraeth. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn cyflawni yn ôl eu gallu.

Mae'r trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymdeithas gyfeillgar a chynhwysol iawn ac mae gan yr holl ddisgyblion fynediad i adnoddau ardderchog i gefnogi eu dysgu. Caiff cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth eu hyrwyddo ar draws yr ysgol drwy weithredu polisïau a gweithdrefnau clir a phwrpasol. Mae gan yr ysgol sustemau effeithiol i sicrhau ymateb effeithiol i unrhyw achos o hiliaeth neu stereoteipio.

Lleolir yr ysgol ar gampws lle mae'r adeilad o ansawdd uchel. Mae'r dosbarthiadau a chyfleusterau, megis y theatr a'r meysydd chwarae safonol, yn cynnig amgylchedd gweithio arbennig o symbylus. Ceir arddangosfeydd deniadol ar hyd y coridorau ac yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth. Maent yn arddangos lluniau'r disgyblion ac idiomau a dywediadau Cymraeg sy'n dechrau cyfrannu'n effeithiol at lwyddiant y nod o ddatblygu ethos Cymreig a chynhwysol yr ysgol ymhellach. Gwneir defnydd pwrpasol o gyfleusterau'r Ganolfan Gydol Oes i ddatblygu medrau perthnasol a gwybodaeth gymunedol y disgyblion. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal yn dda iawn, ac maent yn ddiogel. Mae'r ystafelloedd chwaraeon, y cyfleusterau newid a'r toiledau o ansawdd uchel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth a disgwyliadau uchel y pennaeth wedi arwain at welliannau arwyddocaol. Mae datblygu sustemau rheolaethol tyn wedi arwain at atebolrwydd cynyddol ymhlith yr uwch dîm rheoli a rheolwyr canol er mwyn cynnal a chodi safonau. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir am gyfeiriad strategol yr ysgol ac mae'n rhoi blaenoriaeth amlwg i roi profiadau addysgu da i ddisgyblion a chefnogaeth gref i staff i ddatblygu'n broffesiynol.

Mae'r pennaeth yn derbyn cefnogaeth effeithiol gan holl aelodau'r uwch dîm. Mae pob aelod o'r tîm arwain yn gweithredu'n strategol ar agweddau penodol ar y cynllun gwella ysgol. Nodwedd gref o'r arweinyddiaeth yw'r strwythur tyn o gyfarfodydd i dracio cynnydd yn erbyn nodau'r cynllun gwella'r ysgol. Mae'r llwybrau cyfathrebu clir wedi gwarantu bod atebolrwydd ymhlith yr holl dîm arwain i gynnal a chodi safonau. Nodwedd bwysig o gyfarfodydd yr uwch reolwyr yw eu bod yn cael eu herio gan y pennaeth yn ogystal â'u cefnogi i ddatblygu eu rolau hwy.

Mae cyfarfodydd trwyadl bob pythefnos rhwng y rheolwyr canol a'u rheolwr llinell i sicrhau lefel o atebolrwydd uchel. Mae strwythur clir ac agenda cytûn i'r cyfarfodydd hyn sydd wedi ei seilio ar galendr monitro systematig. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn yn nodi cyfrifoldebau gweithredu a chamau dilynol priodol. Mae'r cofnodion hyn, ynghyd â chyfarfodydd y pennaeth gyda'r rheolwyr cyswllt, yn sicrhau bod gan y pennaeth afael gadarn ar ansawdd gwaith yr adrannau yn ogystal â bod ganddi orolwg o'u cynnydd yn erbyn eu targedau.

Mae gan reolwyr canol yr ysgol adnabyddiaeth gadarn o'u cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae bron pob un ohonynt yn ymateb yn weithredol i ganfyddiadau monitro adrannol megis rhoi adborth pwrpasol a chlir i ddisgyblion am eu cynnydd. Mae gan bron pob un afael gadarn ar brosesau dadansoddi data.

Caiff targedau rheoli perfformiad yr holl staff addysgu eu cysylltu'n glir gyda blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Mae rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant mewn swydd yn ei lle er mwyn cefnogi staff i wireddu'r targedau perfformiad hyn. Ar hyn o bryd, mae'r rheolwyr canol yn gyfrifol am bennu targedau aelodau eu hadrannau, ond yr uwch dîm arwain sy'n arsylwi'r gwersi'r athrawon.

Mae'r corff llywodraethol llawn yn ymwybodol iawn o berfformiad yr ysgol. Maent yn derbyn, ac yn dadansoddi data yn effeithiol, ac yn ymwybodol iawn o'r agweddau sydd angen eu gwella. Maent yn chwarae eu rôl fel ffrind beirniadol yn briodol. Mae llywodraethwr cyswllt priodol gyda phob adran. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhan o'r broses hunanarfarnu adrannol. Maent yn gorff sydd yn gefnogol iawn i waith yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn y cynllun gwella ysgol. Maent wedi penodi cydlynwyr rhifedd a llythrennedd er mwyn datblygu cynlluniau medrau'r ysgol, ehangu opsiynau i ddysgwyr 14-19, a sefydlu cynllun gyda chlwb pêl-droed Caerdydd i gefnogi disgyblion mwy bregus. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y gwaith hwn ar ddeilliannau cyfnod allweddol 4.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Ers penodi'r pennaeth newydd, mae'r ysgol yn datblygu diwylliant hunanarfarnol gynyddol yn yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r arfarnu wedi cryfhau ond nid yw'r gweithgareddau trylwyr hyn wedi cael digon o amser i gael effaith lawn ar safonau. Ceir prosesau systematig i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o wersi a gwaith y disgyblion. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ymwybyddiaeth glir a chywir o'i chryfderau a gwendidau. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn cynnwys gwerthusiad priodol o berfformiad disgyblion. Mae'n ddogfen hunanfeirniadol a gonest, sydd yn amlygu cryfderau ynghyd â meysydd i'w gwella.

Ceir cysylltiad clir rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. O fewn cynllun gwella'r ysgol, ceir targedau uchelgeisiol a strategaethau pwrpasol er mwyn eu cyflawni. Mewn cyfnod byr iawn, mae'r strategaethau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar feysydd pwysig i'w gwella a adnabuwyd mewn lleiafrif o adrannau, megis sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd da ym mhob pwnc.

Trwy gydweithio yn agos gyda'u rheolwyr llinell, mae bron pob un o'r rheolwyr canol wedi datblygu eu dealltwriaeth o sut i ddadansoddi data'n dda. Mae'r penaethiaid adran yn cynhyrchu adroddiadau hunanarfarnu cynhwysfawr sydd yn tynnu'n briodol ar ganfyddiadau o graffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn arsylwi gwersi aelodau eu hadrannau'n ffurfiol. Mae cynlluniau gwella adrannol yn cysylltu'n glir gyda chanfyddiadau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau ysgol gyfan. O fewn y rhain, ceir strategaethau bwriadus er mwyn gwella safonau. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn cynnwys targedau meintiol neu gostau penodol.

Mae'r ysgol wedi ceisio barnau'r disgyblion ar ansawdd yr addysgu a'u hoff arddulliau dysgu. Mae'r staff yn ymwybodol o ganfyddiadau'r ymgynghori hwn, ond nid yw'r ysgol wedi gwerthuso ymateb y staff i'r gwaith hwn. Nid yw'r ysgol wedi canfod barnau'r rhieni ar waith yr ysgol yn systematig.

Nid yw'r ysgol wedi ymateb yn llawn i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Caiff y staff gefnogaeth fuddiol mewn rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant proffesiynol parhaus a chyfleoedd buddiol i arsylwi ei gilydd yn addysgu. Mae'r rhan fwyaf yn aelodau o weithgorau pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi cael digon o amser i effeithio safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau strategol effeithiol gyda'r llywodraethwyr, rhieni, cyflogwyr a sefydliadau perthnasol yn y gymuned, sydd yn cefnogi gwaith yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn rhan o raglen werthfawr iawn â drefnir yn y sir i gefnogi a datblygu hyder disgyblion a hybu eu cymhelliant. Mae'r partneriaethau hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar brofiadau a lles disgyblion.

Mae cydweithio gwerthfawr gyda'r ysgolion cynradd sydd yn hwyluso'r broses drosglwyddo ym Mlwyddyn 7. Caiff disgyblion Blwyddyn 6 gyfleoedd cyson i ymweld â'r ysgol. Mae cyd-gynllunio buddiol cwricwlaidd wedi digwydd er mwyn atgyfnerthu a datblygu rhifedd o Flwyddyn 5 i 8 drwy wyddoniaeth. Elfen lwyddiannus yw'r gwaith mae'r myfyrwyr hŷn yn ei wneud gyda disgyblion yn yr ysgolion partner. Mae'r holl elfennau hyn yn sicrhau dilyniant effeithiol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall.

Mae rhaglen addysg a byd gwaith yr ysgol yn cael ei chyfoethogi gan y bartneriaeth addysg a busnes. Mae disgyblion o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 10 yn ymweld â chyflogwyr lleol, profi dyddiau her busnes, a chydweithio gyda chyflogwyr lleol mewn dyddiau menter. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i baratoi disgyblion at y gweithle.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol 'nawr gyda phartneriaid o fewn y consortia i ehangu cwricwlwm 14-19 a chyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd y consortiwm yn drwyadl.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol staff â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Ceir hyfforddiant defnyddiol i'r ychydig iawn o athrawon sy'n addysgu tu allan i'w harbenigrwydd. Gwna'r ysgol ddefnydd da o gymorthyddion dosbarth.

Rheolir cyllideb yr ysgol gan y pennaeth a'r bwrsar yn effeithiol iawn. Mae monitro a chynllunio gofalus wedi arwain at sefyllfa ariannol iach. Ar hyn o bryd, mae gwarged o £280,000. Caiff y llywodraethwyr fewnbwn buddiol i sicrhau gwariant ar flaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn sicrhau hyfforddiant perthnasol i gefnogi athrawon i gyflawni eu swyddi. Mae'r chweched dosbarth yn gost effeithiol.

Yng ngoleuni'r safonau digonol, cyflwyna'r ysgol werth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, yn 2012, roedd gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd o gymharu a'r tair blynedd diwethaf. Gyda'r perfformiad yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim am y tro cyntaf. Ers 2009, mae perfformiad yn y Gymraeg, yng nghyfnod allweddol 3, wedi dangos tuedd o welliant ond, yn 2012, roedd perfformiad dal ychydig yn is na chyfartaledd perfformiad y teulu o ysgolion ac yr ysgol yn parhau i fod ymysg y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae'r darlun ar gyfer Saesneg hefyd yn dangos gwelliant sylweddol o gymharu â 2009. Roedd perfformiad yn 2012 yn debyg i gyfartaledd y teulu, ond yn gosod yr ysgol ymysg y 50% isaf o ysgolion o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella ers 2010 ac mae 'nawr yn debyg i gyfartaledd y teulu ac yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Yn 2012, 'roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd y teulu ac ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn y pynciau craidd, yn gyson is na chyfartaledd y teulu. Yn 2012, roedd perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim ac roedd perfformiad gwyddoniaeth yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2010, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd, wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Dros y ddwy flynedd, mae perfformiad yn y ddau ddangosydd hyn wedi gosod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Yn 2012, roedd perfformiad yn y trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn is na pherfformiad disgwyliedig.

Mae darlun tebyg dros y ddwy flynedd yn y dangosydd trothwy lefel 2.

Er bod gwelliant yng nghanlyniadau y pynciau craidd o gymharu â rhai 2011, roedd perfformiad yr ysgol yn yr hanner isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd diwethaf. Yn 2009, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf, ac yn 2010, yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros y ddwy flynedd diwethaf, roedd perfformiad yn y trothwy lefel 1 hefyd wedi gostwng ac yn symud yr ysgol o'r 50% uchaf o ysgolion tebyg yn 2010, i fod yn y 25% isaf yn 2011 a 2012. Ers 2011, mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach wedi'i chapio wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu yn 2011 a 2012, ac ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, bu gwelliant mewn perfformiad yn y Gymraeg ar lefel 2. Yn 2011, roedd perfformiad yn y dangosydd hwn yn y 25% isaf, ac yn 2012 yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae darlun mwy cyson ym mherfformiad lefel 2 Saesneg, gyda'r canlyniadau dros dair blynedd yn gosod yr ysgol yn is na chyfartaledd y teulu ac yn yr hanner isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 yn gyson yn is na'r

teulu ac yn 2010, 2011 a 2012 yn gosod yr ysgol yn yr hanner isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Gwyddoniaeth yw'r pwnc sydd yn perfformio orau yn yr ysgol. Mae canlyniadau lefel 2 yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

O gymharu â'u perfformiad mewn cyfnodau allweddol blaenorol, ar y cyfan, mae'r disgyblion yn gwneud gwell cynnydd o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4 na maent o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 ar draws y dangosyddion.

Yn 2011, ni adawodd un ddisgybl yr ysgol heb gymhwyster, ond yn 2012 gadawodd ychydig iawn heb gymhwyster. Mae'r nifer hyn yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad y disgyblion yn ddigonol. Yn 2012, llwyddodd 95% o ddisgyblion y chweched dosbarth i gyflawni trothwy lefel 3; mae hyn yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru. Fodd bynnag, mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ychydig yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn yn is na pherfformiad y merched ym mhob dangosydd allweddol. Yn 2012, roedd y gwahaniaethau hyn yn llai na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru. Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyflawniadau'r merched yn well na'r bechgyn ym phob dangosydd allweddol ac mae'r gwahaniaethau hyn yn fwy na chyfartaleddau Cymru a'r teulu, heblaw yn y Gymraeg lle mae'r gwahaniaeth yn llai na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.

Yn 2012, yng nghyfnod allweddol 4, fe wnaeth ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, perfformio'n well na disgyblion tebyg yn y teulu o ysgolion yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol yn gwneud cynnydd da.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion**

Ymatebodd 164 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur. Mae'r sampl hon yn cynrychioli o dan chwarter o holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ymatebion ar gyfer llawer o'r cwestiynau yn debyg neu'n well nag ymatebion disgyblion o ysgolion uwchradd eraill.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'r rhan fwyaf yn nodi bod ganddynt rywun i siarad ag ef os ydynt yn poeni. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda. Teimla llawer o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach a bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol iddynt wneud eu gwaith.

Mae bron pob disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Hefyd, mae llawer yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo bod y staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn gwneud newidiadau maent yn eu hawgrymu. Mae'r gyfran hon yn uwch na'r gyfran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Hefyd, mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 97 o holiaduron gan y rhieni. Mae hyn yn is na'r nifer a dderbyniwyd mewn ysgolion uwchradd eraill. Mae llawer o'r rhieni yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed llawer o'r rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn gwneud cynnydd da ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae llawer yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda a bod eu plant yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae llawer yn nodi bod disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac maent yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Hefyd, mae llawer o'r rhieni yn teimlo bod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.

Mae llawer o'r rhieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf, coleg neu waith. Mae llawer o'r rhieni yn teimlo bod yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae llawer o'r rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ray Owen | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| David Hughes | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Dewi Lake | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elizabeth West | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |